



Hysbysiad Preifatrwydd Ysgol Aberconwy

Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) sy'n dod i rym ar 25 Mai 2018, mae'r hysbysiad hwn yn nodi beth mae'r Awdurdod Addysg Lleol ac Ysgol Aberconwy yn ei wneud gyda gwybodaeth bersonol a pherfformiad plant a phobl ifanc, ac unrhyw wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â chi fel rhiant / gwarcheidwad.

Bydd y wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn ymgorffori unrhyw newidiadau pellach a gyfathrebir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

1. Casglu data personol

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am blant, pobl ifanc a'u rhieni neu warcheidwaid cyfreithlon pan fyddant yn mynd i ysgol newydd. Maent hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn ysgol. Derbynnir gwybodaeth hefyd gan ysgolion eraill pan fydd disgyblion yn trosglwyddo.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn gwybodaeth am blant/pobl ifanc o'r ysgol/sefydliad addysg.

Ar ôl derbyn y wybodaeth, yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol yw'r rheolwr data.

Mae gennym systemau CCTV mewn lleoliadau allweddol at ddibenion diogelwch ac atal a chanfod troseddau.

Byddwn yn datgelu delweddau CCTV i drydydd partïon at ddibenion diogelwch y cyhoedd ac atal a chanfod troseddau yn unig.

2. Pa wybodaeth a gedwir?

Mae'r wybodaeth bersonol a chategori arbennig a gesglir yn cynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Rhyw
- Grŵp ethnig
- Statws anabledd
- Gwybodaeth iechyd arall
- Gwybodaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Canlyniadau asesu ac arholiadau cenedlaethol
- Presenoldeb
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch addysg yn yr ysgol
- Delweddau a thempledi olion bysedd ar gyfer Cofnodi Biometrig

3. Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth?

Defnyddir y wybodaeth a gesglir i ddiogelu plant a phobl ifanc a sicrhau bod manylion cyswllt priodol ar gael i gysylltu â rhieni / gwarcheidwaid. Mae'r ysgol a'r Awdurdod Lleol hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wneud ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r ymchwil i wneud penderfyniadau ar bolisi ac ariannu ysgolion, i gyfrifo perfformiad ysgolion a'u helpu i osod targedau.

Mae'r ymchwil hefyd yn hysbysu'r addysg a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc, er enghraifft:

- Darparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- Monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol plant / pobl ifanc;
- Darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol ac iechyd; AAA a gofynion trafndiaeth; data am waharddiadau, presenoldeb a meithrin
- Rhoi cymorth ac arweiniad i blant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol;
- Trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol;
- Cynllunio a rheoli'r ysgol.
- Cofnodi taliadau ariannol i ddisgyblion/myfyrwyr a rhieni/gwarcheidwaid a thaliadau a wneir ganddynt.

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio. Mae hyn yn golygu y gallwn wneud penderfyniad yn awtomatig amdanoch heb ymyrraeth ddynol.

4. Gyda phwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth?

Anfonir gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol o ysgolion a'r Awdurdod Lleol fel arfer fel rhan o gasgliad data statudol sy'n cynnwys y canlynol:

- Casgliad data ôl-16
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casgliad lefel disgyblion addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
- Casgliad data cenedlaethol (CDC)
- Casgliad presenoldeb
- Casgliad data Profion Cenedlaethol Cymru (PCC)

Gellir rhannu gwybodaeth a gedwir gan yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol ar blant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol â sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu, er enghraifft:

- Cyrff addysg a hyfforddiant eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd disgyblion yn gwneud ceisiadau am gyrsiau, hyfforddiant, trosglwyddo ysgol neu chwilio am arweiniad ar gyfleoedd;
- Cyrff sy'n gwneud gwaith ymchwil i LC, ALI ac ysgolion, cyhyd â bod camau yn cael eu cymryd i ddiogelu'r wybodaeth;
- Llywodraeth ganolog a lleol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- Gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill lle mae angen rhannu gwybodaeth i warchod a chefnogi plant a phobl ifanc unigol;
- Cyrff rheoleiddio amrywiol, fel ombwdsmyrn, awdurdodau arolygu a mentrau twyll gan y Llywodraeth, lle mae'r gyfraith yn mynnu bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo fel y gallant wneud eu gwaith.

5. Am ba hyd y byddwn yn cadw'r wybodaeth hon?

Bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn cadw ac yn dinistrio'r wybodaeth yn unol â'u hamserlenni cadw, sydd ar gael drwy gysylltu â'r isod.

6. Eich hawliau dan GDPR

Mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i'r wybodaeth bersonol y mae'r ysgol a'r Awdurdod Lleol yn ei phrosesu amdanoch;
- Ofyn i'r ysgolion neu'r Awdurdod Lleol gywiro anghywirdebau yn y wybodaeth honno;
- Yr hawl (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu (o dan rai amgylchiadau)
- Gyflwyno cwyn i'r comisiynydd gwybodaeth, sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am ragor o wybodaeth am y wybodaeth a ddelir gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol, a sut y caiff ei defnyddio, neu os ydych chi'n dymuno ymarfer eich hawliau dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Mr. K Bratch
Rheolwr Busnes
Ysgol Aberconwy
Rhodfa Morfa
Conwy
LL32 8ED

Ffôn : 01492 593 243
Ebst : parentapp@aberconwy.conwy.sch.uk

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Information Commissioners Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Llinell gymorth: 029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)

Gwefan: www.ico.gov.uk